# Cynllun Datblygu Ysgol

# Crynodeb Cyhoeddedig

# 2024-25

| Hunan-werthuso'r ysgol: crynodeb |
| --- |
| **Cryfderau:**<br>● Mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol o'u pwyntiau cychwyn amrywiol.<br>● Mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.<br>● Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i gyfrannu at fywyd ysgol trwy wahanol grwpiau llais disgyblion.<br>● Mae'r disgyblion yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol.<br>● Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn.<br>● Ceir perthynas broffesiynol gref iawn rhwng disgyblion a staff.<br>● Mae ystafelloedd dosbarth yn amgylcheddau dysgu cynhyrchiol, gweithredol a deniadol.<br>● Mae'r gwersi wedi'u cynllunio'n dda ac yn adeiladu'n ddilynol ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth disgyblion.<br>● Mae staff yn ystyried beth mae disgyblion am ei ddysgu amdano ac mae eu diddordebau yn dylanwadu ar themâu ysgol.<br>● Mae'r ysgol yn gymuned ysgol hapus ac amrywiol iawn.<br>● Mae gan yr ysgol ethos ofalgar a chynhwysol iawn.<br>● Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi pob plentyn a'u teuluoedd.<br>● Mae trefniadau pontio'n gryf gydag Ysgol Rhydywaun.<br>● Mae gan yr ysgol ffocws cryf ar ddatblygu arbenigedd staff ac ymwneud â dysgu proffesiynol; mae hyn yn helpu staff i fyfyrio ar eu haddysgu a gweithio gyda'i gilydd i wella eu hymarfer.<br>● Mae gan y llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o waith yr ysgol ac maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol.<br>● Mae gweledigaeth glir a gwerthoedd yn eu lle sy'n cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru; mae hyn wedi ei ddatblygu'n dda gyda disgyblion, rhieni /gofalwyr a llywodraethwyr.<br>● Mae gweithgareddau monitro a hunan-werthuso rheolaidd a chadarn yn parhau.<br>● Gyda newidiadau staffio ac arweinyddiaeth, mae eglurder o ran rôl a chyfrifoldebau arweinwyr canol, ac mae'r effaith yn datblygu trwy arweinyddiaeth ddosranedig. |
| **Meysydd i'w datblygu:**<br>● Datblygu sgiliau Rhifedd disgyblion<br>● Datblygu asesu mewn dysgu gan ddisgyblion yr ysgol |

| GWERTHUSIAD CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2023/24 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Gwerthuso cynnydd** |
| **1. Parhau i ddatblygu a mireinio cynlluniau Cwricwlwm i Gymru trwy ffocysu ar asesu a thracio cynnydd gyda'r pwyslais ar ddatblygu annibyniaeth ymhellach, sicrhau ymglymiad, datblygu cynlluniau sy'n sicrhau her cyrhaeddadwy ac adnoddau pwrpasol a chynllunio'r daith ddysgu hir dymor.** | Gweithiodd timau Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn effeithiol yn yr ysgol ac ychydig ar y cyd ag ysgolion clwstwr i ddatblygu themau ysgol gyfan a chwricwlwm dilynol.<br>Gwnaed defnydd effeithiol o Taith 360, wythnosau asesu ac Adolygiadau Dysgu er mwyn tracio, asesu a barnu cynnydd pob grwp o ddisgyblion o fewn yr ysgol. |
| **2.Datblygu a gwreiddio 12 Egwyddor Addysgeg ar draws yr ysgol, gyda ffocws ar ddatblygu dysgwyr annibynnol sy'n uchelgeisiol, yn defnyddio sgiliau meddwl medrus i ddatrys problemau ac yn gallu trafod eu cynnydd eu hunain ac arwain eu dysgu.** | Cawsom hyfforddiant ar Addysgu Rhagorol gan Nick Jones gafodd effaith lwyddiannus iawn ar arferion addysgeg ar draws yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfodydd trafod agweddau a rhanwyd arfer da yn dilyn ymchwiliadau gan staff. Gwelwyd y disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynu gwahaniaethol, heriol a datblygwyd annibyniaeth ein disgyblion ar draws yr ysgol. |
| **3.Llythrennedd - Gwella medrau llafar disgyblion i godi safonau ysgrifennu disgyblion a dealltwriaeth o destun** | Mae datblygiadau pellach i'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith llafar trwy Llais 21 i fwydo darllen ac ysgrifennu sydd wedi arwain at effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac yn arbennig y grwpiau blwyddyn ffocws a elwodd o fwy o gymorth trwy'r Gwaith trochi Iaith.Rydym yn dechrau gweld effaith bositif disgyblion yn defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol.<br>Datblygwyd gallu disgyblion i ymateb yn briodol i gwestiynu gwahaniaethol a heriol staff yn ystod y flwyddyn. |
| **4.Codi safonau sgiliau Cymhwysedd Digidol mwyafrif o'r disgyblion ar draws yr ysgol.** | Cwblhawyd gynllun gweithredu gan yr ysgol oedd yn cynnwys hyfforddiant, treialu a rhannu arfer ar draws yr ysgol. Gwelwyd datblygiad yn hyder y staff yn sgil yr hyfforddiant a chyfleoedd i dreialu rhaglenni amrywiol. Cyflwynwyd a defnyddiwyd geirfa newydd yn effeithiol gyda'r disgyblion. Cafwyd adborth positif iawn gan ddisgyblion yr ysgol ar y datblygiadau. Byddwn yn parhau i ddatblygu elfennau codio ar draws yr ysgol yn dilyn buddsoddiad mewn teclynnau a chaledwedd newydd. |

| BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024/25 | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Camau Allweddol** | **Cefnogaeth** |
| 1. **Parhau i ddatblygu a mireinio cynlluniau Cwricwlwm i Gymru:**<br>**-ffocysu ar asesu a thracio cynnydd**<br>**- sicrhau her cyrhaeddadwy ac adnoddau pwrpasol i gefnogi** | ● Adolygu effeithiolrwydd prosesau ac ymchwiliadau cynllunio athrawon.<br>● Timau Camau Cynnydd a Meysydd Dysgu a Phrofiad i barhau i gwrdd yn rheolaidd i gynllunio, gwerthuso ac addasu cynlluniau<br>● Adolygu'r sylw ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, sgiliau a phrofiadau.<br>● Sicrhau dilyniant yn y sgiliau a ddysgir ar draws taith addysgiadol disgyblion yn y cynradd<br>● Datblygu gallu disgyblion i asesu mewn dysgu, adnabod ac ymateb i'w camau dysgu nesaf. | ● Cyfarfodydd Rhwydwaith MDPh Consortiwm Canolbarth y De (CCD)<br>● Rhaglen dysgu proffesiynol CCD.<br>● Cymuned Ddysgu CiG y Clwstwr<br>● Cyfarfodydd arweinwyr MDaPh y Clwstwr |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>● Cysylltiadau gyda llywodraethwyr yr ysgol a rhieni i rannu'r newyddion a'r datblygiadau diweddaraf.<br>● Adolygiadau dosbarth tymhorol wedi'u cwblhau gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ar gyfer pob dosbarth.<br>● Holl dimau Cam Cynnydd yn cwrdd yn rheolaidd.<br>● Adolygu'r sgiliau addysgwyd yn y themau llynedd, hunan arfarnu ac addasu at y cylch 2 flynedd nesaf. | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>● Llawer o ddosbarthiadau wedi gweithredu dull ymchwiliad pwrpasol yn dda.<br>● Dysgwyr yn dylanwadu ar gynllunio ac ymchwiliad dosbarth yn dda ym mhob dosbarth.<br>● Adolygiad tymhorol o'r sylw ar y datganiadau wedi ei gwblhau fel rhan o adroddiadau effaith.<br>● Timau Cam Cynnydd a MDaph yn cwrdd yn rheolaidd.<br>● Creu arddangosfydd pwrpasol i gyd-fynd â phrosiectau Cwricwlwm i Gymru a monitro trwy deithiau dysgu<br>● Datblygu tracio ac asesu i gynnwys disgyblion yn ran o'r broses<br>● Hollstaff i fynychu a gweithredu ar hyfforddiant 'Asesu mewn Dysgu' Gareth Coombes. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>● Bron pob dysgwr yn dangos cynnydd da ar draws y Cwriwlwm<br>● Adolygiad o brosesau cynllunio a'r sylw i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi cwblhau ac addasiadau wedi gwneud mewn ymgynghoriad â staff<br>● Rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio gorsafoedd gwerthuso yn fwyfwy annibynnol ac yn gallu trafod eu cynnydd gyda mwy o fanylder. |

| | | |
|---|---|---|
| 2. **Datblygu arweinyddiaeth yr ysgol. Mireinio systemau er mwyn datblygu rolau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol, cynyddu atebolrwydd a pherchnogaeth yn dilyn newidiadau pellach yn arweinyddiaeth yr ysgol.** | • Sicrhau bod y rhaglen dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd arwreiniad.<br>• Adnabod arweinwyr canol i gymryd rhan mewn llwybr dysgu proffesiynol.<br>• Cyfarfodydd arweinwyr canol rheolaidd wedi'u trefnu.<br>• Arweinwyr uwch a chanol i dderbyn sesiynau hyfforddi rheolaidd. | • Clwstwr yn gweithio ar strategaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ddosranedig<br>• Arweinwyr yn mynychu sesiynau rhwydwaith priodol i rannu arfer.<br>• Cefnogaeth CCD i ddatblygu sgiliau â datblygiad clir ar draws yr ysgol.<br>• Staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant allanol i ddatblygu fel arweinwyr a chynyddu atebolrwydd. |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>• Gosod strwythurau staffio priodol mewn lle yn nodi rheolwyr llinell<br>• Mae gan bob arweinydd canol amcanion arwain fel rhan o broses Gweithdrefnau a Disgwyliadau UDA.<br>• Pob arweinydd canol i gwblhau gweithgaredd fonitro gydag aelod UDA.<br>• Cyfarfodydd arweinyddiaeth cyson gyda disgwyliadau ac atebolrwydd clir<br>• Dirprwy Bennaeth yn ymuno a fforwm Dirprwyon Sir Merthyr<br>• Arweinwyr newydd yr UDA yn derbyn hyfforddiant dwys ar Arwain CiG ac Uwch-Arweinyddiaeth | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>• Yr holl staff addysgu yn mynychu a gweithredu ar hyfforddiant Hunanarfarnu effeithiol Nick Jones.<br>• Staff cynorthwyol yn mynychu a gweithredu ar hyfforddiant Consortiwm CCD ar Rol y Cynorthwyydd<br>• Pob arweinydd canol wedi derbyn sesiynau hyfforddi rheolaidd gyda hyfforddwr UDA .<br>• Pob arweinydd canol i arwain gweithgarwch monitro gydag aelod UDA.<br>• Hunan-werthuso’r Corff Llywodraethu wedi ei gwblhau.<br>• Gwneud defnydd o awdit sgiliau y llywodraethwyr i bennu cyfrifoldebau fesul cyfnod/MDaPh. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>• Arweinwyr canol i gael eu monitro gan aelod o’r UDA wrth arwain gweithgaredd fonitro.<br>• Arweinwyr Canol wedi eu nodi ar gyfer Rhaglen Datblygu Arweinwyr<br>• Defnyddio Continwa Addysgu i alluogi athrawon a chynorthwywyr i hunan arfarnu, gosod ac adolygu targedau penodol unigol er gwelliant |
| 3. **Codi safonau mathemateg a rhifedd disgyblion er mwyn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i gymhwyso eu sgiliau a gwybodaeth** | • Yr holl staff i fynychu dysgu proffesiynol a gweithredu ar gynllun Mathemateg a rhifedd newydd gan Ceri Waters | • Dysgu proffesiynol i'r holl staff a chefnogaeth estynedig gan dîm Rhifedd CSC.<br>• Arweinwyr Rhifedd yr ysgol yn arwain ar |

| | | |
|---|---|---|
| | ● Pwyslais ar waith rhifedd ymarferol i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion<br>● Gwersi model wedi eu harddangos ar strategaethau effeithiol Rhifedd a chydweithio arnynt.<br>● Rhannu arfer da a gwaith dysgwyr. | strategaethau dysgu ac addysgu Rhifedd effeithiol. |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>● Pob athro wedi cael mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ynglŷn â llafar, darllen ac ysgrifennu.<br>● 'Disgwyliadau' ysgrifennu wedi cael eu nodi.<br>● Mae dysgwyr yn cael mynediad at wersi ysgrifennu o safon uchel.<br>● Gweihtredu ar ddealltwriaeth disgyblion o destun trwy Darllenco a carwsel darllen dyddiol<br>● Mae cynnydd y dysgwyr wedi cael ei adolygu. | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>● Mae pob athro wedi rhannu arfer gyda'i gilydd a chydweithwyr o ysgolion eraill.<br>● Mae dysgwyr yn ysgrifennu yn helaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac at wahanol ddibenion.<br>● Mae ysgogiadau ysgrifennu yn adlewyrchu amrywiaeth, cynhwysiant, hunaniaeth Gymreig, a diwylliant.<br>● 'Awduron' wedi rhannu eu profiadau gyda dysgwyr.<br>● Cynnydd y dysgwyr wedi cael ei adolygu. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>● Trafodaeth broffesiynol, rhannu arfer wedi parhau.<br>● Dysgwyr yn ysgrifennu'n helaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac mewn meysydd/ tasgau sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion.<br>● Dysgwyr wedi cymryd rhan mewn dyddiau ar thema llythrennedd a/neu ddigwyddiadau cymunedol.<br>● Cynnydd y dysgwyr wedi cael ei adolygu trwy adolygiadau dysgu yn dilyn Wythnosau asesu.. |
| 4. **Datblygu cysylltiadau cymunedol yr ysgol er mwyn adeiladu perthnasau a phartneriaethau cryf ac effeithiol rhwng yr ysgol a'i chymuned sydd yn fuddiol i'r holl randdeiliaid.** | ● Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau sefydlog ac effeithlon.<br>● Cynyddiad yn y lefel o ymgysylltiad cymunedol.<br>● Sefydlu Ysgol Rhyd y Grug fel 'Calon y Gymuned'.<br>● Sefydlu Ysgol Rhyd y Grug fel ysgol gymunedol er mwyn mynd i'r afael â thlodi, presenoldeb, ymddygiad, tegwch, cyrhaeddiad a dysgu.<br>● Gwella iechyd meddwl pobl ifanc ein hysgol a'n cymuned. | ● Aelodaeth o bwyllgorau lleol e.e. Invest Local<br>● Cydweithio ag ysgolion a busnesau yn y gymuned<br>● Cysylltiadau, Arweinyddiaeth a hyfforddiant Consortiwm CCD ar 'Leihau effaith tlodi' |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br>● Marchnata'r ysgol -gwefan newydd, | **Cerrig Milltir Mawrth**<br>● Communities of Practice<br>● Gweminarau 'Young minds' ar | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br>● Dysgu rhwng y cenedlaethau - creu cyswllt |

| | | |
|---|---|---|
| pamffledi, ffilm<br>• Datblygu Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau newydd a sefydlu’r gymdeithas fel elusen.<br>• Sefydlu Ysgol Rhyd y Grug fel ‘Calon y Gymuned’ a cheisio am wobrau efydd ac arian.<br>• Sefydlu cyswllt gyda ‘Invest Local’ a mynychu cyfarfodydd. | gyfer rhieni<br>• Gweithdai/grwpiau i rieni. Defnyddio ymtaeb yr holiadur’Young Minds’ i gynllunio’r fath o weithdai. E.e.<br>-Multiply (Claudia Meyrick)<br>-Pipyn<br>• Cydweithio ag ysgolion lleol ar brosiectau Cymraeg | a chartref henoed<br>• Datblygu partneriaethau gyda busnesau ac ysgolion lleol<br>• Datblygu gard gymunedol yr ysgol at ddefnydd y gymuned.<br>• Gwerthuso llwyddiant prosiectau Cymraeg Saesneg gydag ysgolion lleol |